# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION CYFARFOD 2il IONAWR 2019

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fercher, 2il Ionawr yn Neuadd Coedybryn.

**Yn bresennol** Cyng Emyr Wyn Jones, Cyng Llŷr Evans, Cyng Mark Davies, Cyng Maldwyn Lewis, Cyng Teifi Evans, Cyng Ceri Jones, Cyng Evan John Jones, Cyng Julie Davies, Cyng Owenna Davies

**Ymddiheuriadau** Cyng Eirian James

**Absennol** Cyng Roger Davies

**Clerc** Eleanor Colbourne

Cyn dechrau'r cyfarfod, dymunodd y cadeirydd, Cyng Owenna Davies ein dymuniad gorau i'r Cyng Eirian James sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Brondsbury, Aberteifi.
Diolchwyd hefyd i aelodau o gymuned Coedybryn am y goeden Nadolig oedd ar y sgwâr dros yr Ŵyl.
Roedd yn dda gweld y Cyng Emyr Wyn Jones wedi gwella ar ôl damwain ar y fferm.

| Eitem agenda | Gweithredu | Gan bwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn ymddiheuriadau** | Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Eirian James | | |
| **2. Cadarnhau cofnodion** | Cynigiwyd gan y Cyng Evan John Jones ac eiliwyd gan y Cyng Julie Davies fod cofnodion cyfarfod mis Tachwedd 2018 yn gywir.<br>Y clerc i baratoi cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr 2018 ac I nodi'n eglur pam na chynhaliwyd y cyfarfod. | Clerc | Cyfarfod nesaf |
| **3. Datgan diddordeb** | Datgelodd y Cyng Maldwyn Lewis ddiddordeb yn y tri cais cynllunio a ddaeth ger ein bron. Llofnodwyd y ffurflen bwrpasol. | | |
| **4. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion** | • Diffibrilwyr ardal Brongest a Maesllyn – nodwyd fod y ddau i fyny a fod yr anfoneb wedi ei dalu. Dywedodd y Cyng Maldwyn Lewis fod Emyr Jones o Gastell Newydd Emlyn yn barod i rhoi hyfforddiant yn y ddwy ardal. Awgrymwyd ein bod yn cynnal hyfforddiant Brongest ar ôl cwrdd ar brynhawn Sul. Hyfforddiant ardal Maesllyn i'w cynnal yn Neuadd Coedybryn. Angen anfon llythyr o ddiolch i ddeiliaid y tŷ mae'r diffbriliwr wedi ei cael ei rhoi arno. Y Cyng Maldwyn Lewis i anfon enw a cyfeiriad ymlaen i'r clerc.<br>Angen i'r clerc i gysylltu gyda Emyr Jones i gael dyddiadau posib, ac yna trefnu gyda Gwennan Powell o Eglwys Troedyraur a Neuadd Coedybryn. | Clerc a'r Cyng Maldwyn Lewis<br>Clerc | Cyfarfod nesaf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Hefyd, angen gofyn i Ambiwlans Sant Ioan i fynychu'r hyfforddiant hefyd.<br>• Angen rhoi'r daflen rhifau argyfwng Cymraeg a Saesneg ar y wefan<br>• Derbyniwyd y Cyfansoddiad a'r Asesiad Risg – angen i'r clerc i'w rhoi ar y wefan.<br>• Materion Ardal – nodwyd y canlynol<br>➢ golau stryd Ffostrasol – wedi ei gwneud<br>➢ safleoedd bws – y Cyngor Sir wedi adnewyddu'r safleoedd bws<br>➢ Sbwriel ar y ffordd rhwng Ffostrasol a Plwmp (defaid) – y Cyngor Sir wedi gwaredu'r sachau<br>➢ Arwyddion Maesllyn a Phenrhiwpal – y Cyng Maldwyn Lewis i wneud ymholiadau<br>➢ Cerrig tu allan i'r tai ger Neuadd Ffostrasol – y clerc wedi cysylltu gyda'r deiliaid yn gofyn iddynt glirio'r cerrig oddi ar y palmant – y Cyngor Sir wedi ei wneud<br>➢ Llinellau melyn yng Nghoedybryn – heb ei gwneud<br>➢ Lefel yr afon yn Rhydlewis – nodwyd fod peth o'r gwaith wedi ei wneud<br>➢ 'Gravel Trap' Brongest – heb ei wneud. Y Cyng Teifi Evans i'w gwneud erbyn y cyfarfod nesaf<br>➢ Pibell yng Nghoedybryn – heb ei wneud. Angen cael mwy o wybodaeth oddi wrth y Cyng Roger Davies<br>• Golau Stryd Brongest – nodwyd fod y postyn yn dal heb ei rhoi yn ôl yn ei le. Y clerc i gysylltu gyda Simon Bray, sydd â gofal am olau stryd gyda'r Cyngor Sir. Roedd y Cyng Maldwyn Lewis wedi derbyn llythyr oddi wrth BT – y Cyng Maldwyn Lewis i anfon copi i'r clerc. | Clerc<br>Clerc<br>Clerc<br>Cyng Maldwyn Lewis<br>Cyng Teifi Evans<br>Cyng Julie Davies/ Cyng Roger Davies/ Clerc<br>Clerc/ Cyng Maldwyn Lewis | Cyfarfod nesaf<br>Ar unwaith<br>Ar unwaith<br>Erbyn y cyfarfod nesaf<br>Erbyn y cyfarfod nesaf<br>Erbyn y cyfarfod nesaf |
| **5. Materion y Cynghorydd Sir** | Roedd dim materion i'w nodi | | |
| **6. Gohebiaeth** | • Codi Ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad - sesiynau hyfforddi – fydd y Cyng Mark Davies, Cyng Julie Davies, Cyng Teifi Evans a'r clerc yn mynychu'r hyfforddiant yn Aberteifi. Dywedodd y Cyng Llŷr Evans a'r Cyng Ceri Jones y byddant yn rhoi gwybod.<br>• Llwybrau Cyhoeddus – derbyniwyd llythyr oddi wrth y Cyngor Sir yn gofyn i'r Cyngor Cymuned rhoi gwybod iddynt pwy oedd perchenog y tir – y clerc i anfon y wybodaeth i'r Cyngor Sir gan ddweud ein bod ddim yn gwybod yw'r perchennog. Y ffurflen wedi ei chwblhau yn y cyfarfod a'i anfon yn syth. | Clerc<br>Clerc | Ar unwaith<br>Ar unwaith |
| **7. Ariannol** | Clerc wedi cysylltu gyda chwmni Ashmole i drafod yr oriau gwaith newydd. Bydd y system newydd yn ei le erbyn y cyfarfod nesaf.<br>Talwyd y canlynol:<br>• HMRC - £87.60 | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Tâl y Clerc - £350.02 | | |
| **8. Cynllunio** | • A181149 – plot adjacent to Little Paddock, Croeslan – erection of a dwelling – cytuno gyda'r asesiadau cyn belled a bônt yn cydymffurfio â gofynion Bwrdd Dŵr a'r Adran Briffyrdd.<br>• A181182 – Ty Newydd, Ffostrasol – 6 no. glamping units – dim gwrthwynebiad cyn belled ei bônt yn cydymffurfio â gofynion y Cyngor Sir.<br>• A181163 – Esgair Tanglwst, Rhydlewis – removal of condition 2 of planning permission D1/92/91 – agricultural occupancy condition – yn dilyn trafodaeth ddwys ar y mater yma, cytunwyd trosglwyddo'r mater yn ôl i'r Cyngor Sir.<br>Cyn i ni drafod y ceisiadau cynllunio, mi adawodd y Cyng Maldwyn Lewis yr ystafell. | Clerc<br><br>Clerc<br><br>Clerc | Ar unwaith<br><br>Ar unwaith<br><br>Ar unwaith |
| **9. Safle We** | Y clerc mewn cyswllt gyda Lesley Parker. Nodwyd fod angen newid rhif ffôn y Cyng Ceri Jones. Gofynnwyd hefyd a oes modd gweld faint o 'hits' mae'r wefan yn ei gael. | | |
| **10. Ffurflen Gais Praespet** | Dosbarthwyd ffurflen gais ar gyfer ceisiadau ariannol. Penderfynwyd ei bod yn rhy hwyr i'w anfon allan eleni ond y clerc i anfon y ffurflen allan gyda'r sieciau am eleni ar gyfer y ceisiadau nesaf. Roedd ychydig o newidiadau i wneud ar y ffurflen. Y Cyng Owenna Davies i wneud y newidiadau a'i anfon i'r clerc. | Cadeirydd | |
| **11. Polisi Iaith** | Aethpwyd drwy'r polisi. Derbyniwyd a llofnodwyd y polisi. | | |
| **12. Eisteddfod Genedlaethol** | Trafodir y mater yma gyda'r ceisiadau ariannol. | | |
| **13. Trosolwg Ariannol** | Dosbarthwyd taflen ariannol i bawb. Diolchwyd i'r clerc am baratoi'r daflen. Erbyn y cyfarfod nesaf, bydd angen i'r clerc rhestru taliadau posibl fydd angen ei wneud cyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>Roedd y canlynol wedi gwneud cais ariannol:-<br>• Neuadd Coedybryn<br>• Neuadd Ffostrasol<br>• Ysgol Gerdd Ceredigion<br>• Eglwys Troedyraur<br>• Eglwys Sant Cynon<br>• Clwb Bowlio Rhydlewis<br>• Eisteddfod Genedlaethol 2020 | | |
| **14. Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf** | Ceisiadau ariannol<br>Materion ardal<br>Cadwyn y Cadeirydd – angen prîs<br>Llofnodion Banc<br>Sbwriel | | |
| **15. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | 05ed Chwefror, 2019 yn Neuadd Rhydlewis am 7.30 y.h. | | |

Llofnod (Cadeirydd) ________________________________

Llofnod (Is-Gadeirydd) ________________________________